**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Mehefin 2022

Bil Drafft Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru)

Annwyl Rebecca,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 6 Ebrill 2022, lle'r ydych yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Drafft Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) arfaethedig.

Mae'n siomedig nad ydych yn cefnogi cyflwyno Bil, yn enwedig o ystyried eich ymgysylltiad cadarnhaol yn ystod gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol cychwynnol y Pwyllgor blaenorol ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae ein gwaith wedi nodi nifer o faterion na ellir mynd i'r afael â hwy heb newid deddfwriaethol. Yn unol â'n cyfrifoldebau am oruchwylio trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, rydym yn bwriadu adolygu'r materion hyn, a'r cynigion deddfwriaethol a ddatblygwyd i fynd i'r afael â hwy, yn gyson.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg./ We welcome correspondence in Welsh or English.